## Pwyllgor Datblygu Economaidd EDC 05-01(p5)

## Brîff i Gyfarfod Datblygu Economaidd 21ain Mawrth

Andrew Davies AC, Trefnydd ac e-Weinidog

Yn gynharach eleni lansiais astudiaeth ymgynghori mawr ar TGC yng Nghymru - Ymgynghoriad Fframwaith Strategol yr Oes Wybodaeth - "Cymru Ar-lein, Online for a Better Wales". Mae'r ymgynghoriad hwn yn anelu at ddarparu arweiniad strategol a chydlyniad yn natblygiad sgiliau TGC pobl Cymru ac annog busnesau bach a chanolig i fanteisio ar gyfleoedd fel y Rhyngrwyd a masnach electronig. Bydd yn arwain at fframwaith a fydd yn dweud sut y bydd y Cynulliad yn sicrhau bod Cymru yn cael budd llawn o'r cyfleoedd cymdeithasol ac economaidd a gynigir gan dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Gellir dod o hyd i "Cymru Ar-lein, Online for a Better Wales" ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol o dan "Themâu a Strategaethau" neu yn www.cymru.gov.uk/cymruarlein. Gellir dod o hyd i rannau allweddol o'r ymgynghoriad yn y ddogfen gysylltiedig. Cedwir yr ymgynghoriad ar agor tan 14eg Mawrth 2001.

Unwaith y bydd y cyfnod ymgynghori wedi'i gyflawni, bydd barn ac ymatebion yn cael eu coladu a'u defnyddio i ddiweddaru ac ehangu Fframwaith Strategol yr Oes Wybodaeth i Gymru. Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r wefan i rannu gwybodaeth ynglþn â materion yn ymwneud â TGC yng Nghymru.

Erbyn cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Economaidd ar 21ain o Fawrth, bydd fy swyddogion yn y broses o goladu a dadansoddi ymatebion, ond ni fydd ar unrhyw gyfrif yn rhy hwyr i ni i dderbyn ymatebion. Rwy'n ystyried y Fframwaith fel dogfen fyw, a fydd yn cael ei ddiweddaru'n barhaus ar hyd ei fywyd, yn cynnwys yn ystod gweithredu'r Fframwaith. Yn y cyfarfod, byddaf felly'n darparu arolwg o'r Fframwaith, y broses ymgynghorol a manylion am ein darganfyddiadau cychwynnol. Rwy'n arbennig o awyddus i gael arolwg o flaenoriaethau fel y'i gwelir nhw gan bob sector a gobeithiaf y bydd ein trafodaeth yn canolbwyntio ar feysydd lle y cred y Pwyllgor y gall y Fframwaith a gweithredu gan y Cynulliad gael y dylanwad mwyaf. Mae'r achlysur hefyd yn darparu cyfle i ychwanegu unrhyw bwyntiau ychwanegol ac i'r rheiny na chafodd gyfle i ymateb yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol i wneud cyfraniad.

**Andrew Davies AC**